# CYNGOR SIR CEREDIGION

## GWASANAETH YSGOLION

## CORFF LLYWODRAETHU YSGOL GYNRADD GYMUNEDOL MYNACH

## 4.15 – 6.00PM, 17 TACHWEDD 2025

| | |
|---|---|
| **Yn bresennol (Hybrid):** | Y Cynghorydd Gareth Jones (Cadeirydd), Bethan James, Dafydd Morris-Jones, Bryn Shepherd, Clare Raw, Rhydian Davies, Teleri Lewis, Carl Cater, Joyce George (Pennaeth). |
| **Clerc:** | Pauline Lucas |

| Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethu: | | | Gweithredu*: |
|---|---|---|---|
| **1** | **YMDDIHEURIADAU / CROESO:** | | |
| | Roedd yr holl aelodau'n bresennol, roedd y cyfarfod yn creu cworwm, felly aethpwyd ymlaen â'r busnes.<br>Estynnwyd croeso i Dafydd Morris Jones i'r cyfarfod yn dilyn ei ddamwain. | | |
| **1i** | **CYNGHORAU YSGOL**: | | |
| | Roedd Aelodau Senedd yr Ysgol yn bresennol er mwyn rhoi cyflwyniad, roedd yr aelodau yno i gynrychioli'r Cynghorau Ysgol amrywiol.<br>**Criw Cymraeg**: Roedd disgyblion a oedd yn aelodau yn annog plant arall i siarad Cymraeg. Maent yn rhoi gwobrau ac yn eu hannog i ddarllen llyfrau Cymraeg hefyd.<br>**Dewiniaid Digidol**: Yn helpu gyda materion TG, yn gwefru teclynnau iPad yn barod i'w defnyddio ac yn defnyddio codau QR a TT Rock Stars ymhlith rhaglenni eraill.<br>**Llysgenhadon Chwaraeon**: Maent yn brysur yn trefnu Clybiau Chwaraeon a gweithgareddau, ac roeddent wedi creu Rhestr Ddymuniadau.<br>**Cyngor Eco**: Annog dim gwastraff yn yr Ysgol ac ailgylchu. Roeddent hefyd yn creu Rhestr Ddymuniadau.<br>**Cenhadon Gwych**: Maent yn weithgar ac maent wedi creu Gorsaf Byrbrydau lle y mae byrbrydau iach ar gael i bwy bynnag y bydd angen iddynt eu cael yn ystod y prynhawn. Maent wedi trefnu Ffrindiau Maes Chwarae sy'n gwisgo melyn ac sy'n cynorthwyo pwy bynnag y mae angen cymorth arnynt. | | |
| **2i** | **DATGELU BUDDIANNAU / CYFRINACHEDD / EGWYDDORION YMDDYGIAD:**<br>Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau o'r canlynol: | | |
| | a) | yr angen i ddatgelu eu budd mewn unrhyw eitem ar yr agenda neu a drafodir yng nghyfarfod y Corff Llywodraethu, a fyddai'n golygu y byddai | |

| Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethu: | | | Gweithredu*: |
|---|---|---|---|
| | | angen iddynt adael y cyfarfod. Byddai unrhyw fudd a ddatgelir yn cael ei gofnodi. | |
| | b) | bod eitemau a drafodir yn ystod cyfarfodydd yn gyfrinachol nes bod y cofnodion yn cael eu cymeradwyo, ac na ddylid eu trafod yn gyhoeddus. | |
| | c) | O'r Egwyddorion Ymddygiad, a lofnodwyd ar eu henwebiad i rôl Llywodraethwr ac y maent ar gael ar Teams er mwyn gallu cyfeirio atynt. | |
| | **PENDERFYNWYD** nodi'r uchod. | | |
| **2ii** | **PENODI CADEIRYDD:** | | |
| | **PENDERFYNWYD** ailbenodi Gareth Jones yn Gadeirydd ar gyfer blwyddyn 2025/2026. | | |
| **2iii** | **PENODI IS-GADEIRYDD:** | | |
| | **PENDERFYNWYD** penodi Carl Cater yn Is-Gadeirydd ar gyfer blwyddyn 2025/2026. | | |
| **2iv** | **AELODAETH Y CORFF LLYWODRAETHU**: | | |
| | **PENDERFYNWYD** nodi<br>Bod y Cyngor Cymuned wedi ailethol Gareth Jones yn Llywodraethwr Cymunedol.<br>Roedd sedd wag am Lywodraethwr ALI, trafodwyd enwau a byddai'r Pennaeth yn rhoi sylw pellach i'r mater. | | Pennaeth |
| **2v** | **COFNODION:** | | |
| | Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14.07.2025, byddent yn cael eu llofnodi gan y Cadeirydd a byddai copi yn cael ei ddychwelyd i Adran y Llywodraethwyr. | | |
| **2vi** | **MATERION YN CODI O'R COFNODION:** | | |
| | Nid oedd unrhyw faterion i'w trafod. | | |
| **2vii** | **COFNODION PWYLLGORAU:** | | |
| | **PENDERFYNWYD** nodi nad oedd unrhyw bwyllgorau wedi cyfarfod ers y cyfarfod diwethaf. | | |
| **2viii** | **PWYLLGORAU'R CORFF LLYWODRAETHU:** | | |

**PENDERFYNWYD** penodi Aelodaeth y Pwyllgorau fel a ganlyn, a mabwysiadu dogfen y Cylch Gorchwyl, a oedd wedi cael ei darparu ar Teams yn flaenorol:

| **Disgyblu Staff a Diswyddiadau / Dileu Swyddi** | |
|---|---|
| **Cyfarfod Cyntaf** | **Apêl** |
| Is-Gadeirydd, 2 Aelod | 3 Aelod |

| Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethu: | Gweithredu*: |
|---|---|

| Disgyblu a Gwahardd Disgyblion |
|---|
| Cadeirydd, Is-Gadeirydd + 1 |

| Dethol Pennaeth, Dirprwy Bennaeth |
|---|
| Cadeirydd, Is-Gadeirydd + 3 |

| Rheoli Perfformiad a Gallu y Pennaeth | |
|---|---|
| **Cyfarfod Cyntaf** | **Apêl** |
| Cadeirydd, Is-Gadeirydd | 2 Aelod |

| Adolygu Tâl | |
|---|---|
| **Cyfarfod Cyntaf** | **Apêl** |
| Cadeirydd, 2 Aelod | Is-Gadeirydd, 2 Aelod |

| Cwynion |
|---|
| Is-Gadeirydd, 2 Aelod |

| Cwynion Staff | |
|---|---|
| **Cyfarfod Cyntaf** | **Apêl** |
| Is-Gadeirydd, 2 Aelod | Cadeirydd 2 Aelod |

| Cyllid, Safle, Iechyd a Diogelwch |
|---|
| Pennaeth, Cadeirydd + Carl Cater |

| Staffio, Perfformiad a Chwricwlwm | |
|---|---|
| **Cyfarfod Cyntaf** | **Apeliadau** |
| 7: Staffio a phersonél: o leiaf 3<br>Penodi staff Addysgu: Pennaeth + 2<br>Penodi staff Cymorth: 1 neu fwy | Yr un nifer a oedd wedi delio â'r mater cychwynnol |

| Lles |
|---|
| Pennaeth, + 2 |

| 2ix | CYFRIFOLDEBAU LLYWODRAETHWYR: | |
|---|---|---|

**PENDERFYNWYD** penodi'r llywodraethwyr canlynol i fod yn gyfrifol am:

| | | |
|---|---|---|
| Cadeirydd | Gareth Jones | * |
| Is-Gadeirydd | Carl Cater | |
| Diogelu / Rhianta Corfforaethol / ADY | Gareth Jones<br>ADY: Dafydd Morris Jones | * |
| Cytundeb Llwyth Gwaith | Teleri Lewis | |
| Hyfforddiant – Ymsefydlu – Fforwm | Teleri Lewis | |
| Chwythu'r Chwiban | Gareth Jones | |
| Presenoldeb | Clare Rowe | |
| Siarter y Gymraeg | Dafydd Morris Jones | |
| Eiriolwr dros Gynorthwywyr Addysgu | Bethan James / Teleri Lewis | |
| Eiriolwr dros Amrywiaeth | Carl Cater | |

| Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethu: | | | Gweithredu*: |
|---|---|---|---|
| CYFRIFOLDEBAU CWRICWLWM: | | | |
| Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu | | Dafydd Morris Jones | |
| Gwyddoniaeth a Thechnoleg | | Carl Cater | |
| Dyniaethau | | Rhydian Davies | |
| Celfyddydau Mynegiannol | | Teleri Lewis | |
| Mathemateg a Rhifedd | | Bryn Shepherd | |
| Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg | | Gareth Jones | |
| Iechyd a Lles / RSE | | Clare Rowe | |
| **2x** | **ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CADEIRYDD I'R RHIENI 2024-2025:** | | |
| | Atgoffwyd yr Aelodau o'r canlynol gan y Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr: | | |
| | a) | Roedd gofyn i'r Cadeirydd baratoi adroddiad blynyddol ac roedd templed ar gael ar Teams; | |
| | b) | Nid oes gofyn cynnal cyfarfod gyda Rhieni, er bod angen hysbysu Rhieni o'u hawl i wneud cais am gyfarfod gan ddefnyddio'r pwerau a ddarparir gan Adran 94. | |
| | c) | **PENDERFYNWYD** nodi y byddai adroddiad ar gael i'r Aelodau er gwybodaeth. | |
| **3i** | **ADRODDIAD Y PENNAETH:** | | |
| | Darparwyd copi o adroddiad y Pennaeth i'r Aelodau yn flaenorol. Cafwyd trafodaeth am y canlynol:<br><br>**Data Disgyblion**: Ceir 46 disgybl ar y gofrestr, wedi'u rhannu i ddau ddosbarth.<br>Daw 50% o ddisgyblion o gartrefi lle y siaradir Cymraeg.<br>Mae 10% (4 disgybl) yn cael prydau ysgol am ddim.<br>Mae gan 10% (4 disgybl) anghenion addysgol ychwanegol.<br><br>**Cynllun Datblygu Ysgol**: Mae cynnydd da yn cael ei wneud yn erbyn y blaenoriaethau.<br><br>**Blaenoriaeth 1:** Pa mor effeithiol yw strategaethau addysgu presennol wrth ddatblygu rhuglder disgyblion a'u hyder gyda mathemateg pen.<br><br>Adroddodd Bethan James, sy'n arwain y prosiect, bod archwiliad wedi cael ei gwblhau, rhannwyd syniadau ac mae gan bob disgybl ffeil mathemateg pen. Rhennir y disgyblion yn ôl eu gallu. Cwblhawyd adroddiad monitro ym mhob Ysgol ac mae cronfa o adnoddau ar gael. Byddai'r Cynghorydd Mathemateg yn ymweld a byddai Llywodraethwyr yn cael eu gwahodd i fynychu. Nodwyd arfer da ar draws yr ysgol.<br><br>**Blaenoriaeth 2:** Sut all staff feithrin brwdfrydedd dros ddarllen Cymraeg er mwyn hyrwyddo mwynhad a dealltwriaeth.<br><br>Mae'r ysgol yn buddsoddi mewn llyfrau diddorol newydd sy'n ennyn diddordeb y plant. Mae staff wedi mynychu hyfforddiant. Mae grantiau ar gael ar gyfer hyfforddiant ac adnoddau.<br><br>**Blaenoriaeth 3:** Pa strategaethau y gall ysgolion eu gweithredu er mwyn | | |

| Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethu: | | Gweithredu*: |
|---|---|---|
| | cynorthwyo disgyblion sy'n absennol neu sydd mewn perygl o danberfformio.<br><br>Mae rhai Disgyblion yn absennol o ganlyniad i'r ffaith eu bod wedi cymryd gwyliau yn ystod y tymor ysgol; mae rhai yn absennol yn barhaus ac felly, maent mewn perygl o danberfformio. Mae prydlondeb wedi gwella. Targedir unigolion er mwyn gwella eu gallu.<br><br>**Blaenoriaeth 4**: Datblygu a gwella safle allanol yr ysgol er mwyn gwella lles, iechyd corfforol, ymddygiad a chyfranogiad Disgyblion.<br><br>Byddai Staff a Disgyblion yn cynllunio'r gwaith, a fyddai'n cychwyn yn y flwyddyn newydd.<br><br>**Cyllid:** Darparwyd copi o waith monitro 2025/2026 i'r aelodau yn flaenorol. Nodwyd y rhagwelir y byddai gwarged o tua £70,000 ar ddiwedd y flwyddyn ariannol bresennol.<br><br>**Diogelu**: Ni chofnodwyd unrhyw faterion bwlio yn ystod y tymor blaenorol. Roedd yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant perthnasol. Byddai'r Cadeirydd yn mynychu hyfforddiant ddiwedd fis Tachwedd. Cwblhawyd yr archwiliad Amddiffyn Plant ac mae ar gael ar Teams. | |
| **3ii** | **DALWYR ALLWEDD YR YSGOL:** | |
| | Darparwyd rhestr o ddalwyr Allwedd i'r Pennaeth yn flaenorol. **PENDERFYNWYD** nodi na fu unrhyw newid i'r manylion. | |
| **4** | **HYFFORDDIANT I LYWODRAETHWYR:** | |
| | • Atgoffwyd yr Aelodau gan y Clerc y cynhelir cyfarfod tymhorol y Fforwm Llywodraethwyr ar 03 Rhagfyr am 6.00pm dros Teams.<br>• Bydd y Cadeirydd yn cwblhau Amddiffyn Plant Grŵp B ar 26/11/25. | |
| **5i** | **POLISÏAU – POLISÏAU STATUDOL:** | |
| | **I'w Hadolygu Bob Blwyddyn:**<br><br>Cynllun Datblygu Ysgol<br><br>Polisïau Cydraddoldeb a Chynllun Hygyrchedd (bob 3 blynedd)<br><br>Gwisg Ysgol<br><br>Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr<br><br>Cofrestr Buddiannau Busnes. (ffurflen RP1/2)<br><br>**Eu Hadolygu os bydd newidiadau wedi bod:**<br><br>Adolygiad Datblygiad Proffesiynol<br><br>Polisi Ymddygiad Ysgol Addysg Rhyw a Pherthnasoedd: *Mae wedi cael ei adolygu –* **PENDERFYNWYD mabwysiadu'r polisi**. | |

| Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethu: | | Gweithredu*: |
|---|---|---|
| | Nodwyd bod yr Archwiliad Amddiffyn Plant wedi cael ei gwblhau. | |
| **5ii** | **POLISI DERBYN 2026-2027:** | |
| | Lanlwythwyd copi o'r polisi ar Teams er gwybodaeth. **PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Polisi.**<br>Cadarnhau mai Capasiti yr Ysgol yw 59<br>Cadarnhau mai Rhif Derbyn yr Ysgol yw 8 | |
| **5iii** | **POLISI DIOGELWCH AR-LEIN:** | |
| | Lanlwythwyd copi o'r polisi ar Teams er gwybodaeth. **PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Polisi.** | |
| **6** | **UNRHYW FATER ARALL A GYFLWYNWYD YMLAEN LLAW:** | |
| | Nid oedd unrhyw faterion i'w trafod. | |
| **7** | **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF:** | |
| | **PENDERFYNWYD** nodi y cynhelir cyfarfod hybrid Llawn nesaf y Corff Llywodraethu ar 16.03.2026 am 4.15. | |

PL
18:11:2025

Cadeirydd: ………………………………………………………. Dyddiad: ……………………………